# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 16 Tachwedd 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**( Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiynau mewn cromfachau )**

Gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**1. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** Faint yw canran y pensiynwyr yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi, fel y caiff ei ddiffinio gan ddangosyddion swyddogol. (OAQ1989JS)

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â Gweinidogion y Trysorlys er mwyn sicrhau nad yw'r Deyrnas Unedig, yn y dyfodol, yn cynyddu cyfyngiadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer ceisiadau am arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop gan sefydliadau o fewn ardaloedd amcan 2. (OAQ2003JS)

**3. David Melding (Canol De Cymru**); A oes ganddo gynlluniau i neilltuo ystafell yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer myfyrio neu addoli. (OAQ1997JS)

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i leihau cyfanswm y gwastraff gwenwynig sy'n parhau i gael ei fewnforio yma i gael ei losgi er mwyn gwella delwedd Cymru dramor. (OAQ1993)

**5. Pauline Jarman (Canol De Cymru);** Yn dilyn ei ymrwymiad i'r Cyngor Partneriaeth pa sylwadau y mae wedi'u cyflwyno, trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Ganghellor y Trysorlys mewn perthynas ag arian ychwanegol i gynorthwyo â dampio yn y setliad llywodraeth leol. [R] (OAQ1994JS)

**6. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ymrwymo i gynyddu'r grantiau sy'n cael eu talu i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac i Awdurdodau Lleol o arian newydd uwchlaw grant bloc Barnet. (OAQ2005JS)

**7. Gareth Jones (Conwy);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gydraddoli'r seiliau am daliadau dwr yng nghartrefi Cymru. (OAQ1998JS)

**8. Nicholas Bourne (Canol a Gorllewin Cymru**); Pa fesurau y mae'n bwriadu eu cyflwyno yn y deuddeg mis nesaf er mwyn lleddfu'r argyfwng yng nghefn gwlad Cymru. (OAQ2001JS)

**9. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)** Pa gynlluniau sydd ganddo i wella cysylltiadau a chydweithrediad rhwng busnesau bach a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. (OAQ2011JS) [w]

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru i sicrhau bod gan Gymru gynrychiolaeth ar unrhyw gwango newydd ar gyfer Prydain gyfan a bod y Cynulliad yn penodi'r rhai a fydd yn cynrychioli Cymru. (OAQ1996JS)

**11. David Davies (Mynwy);** A ydyw ef neu unrhywun o'i swyddogion wedi cyfarfod â'r Fenter Goedwigaeth neu'r Comisiwn Coedwigaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn trafod y posibilrwydd o werthu Parc Coedwig Cas-gwent. (OAQ2008JS)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Sut mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu defnyddio arian Amcan 2 er mwyn mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol ym Mhowys. (OAQ1988JS)

**13. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A ymgynghorwyd yn llawn â Disability Wales ynghylch y cynigion diweddaraf ar gyfer dyluniad adeilad newydd y Cynulliad. (OAQ1985VB)

**14. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A fydd yn cefnogi unrhyw ymdrechion i sicrhau trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol parthed penodiadau i Dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yn y meysydd hynny y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt yng Nghymru. (OAQ1987JS) [w]

**15. Jane Davidson (Pontypridd);** Pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod y Cynulliad yn gwneud defnydd helaeth o fudiadau megis *Youth Link* Cymru, sy'n anelu at addysgu pobl ifanc am gamddefnyddio sylweddau a HIV. (OAQ1991JS)

**16. Elin Jones (Ceredigion);** A ydy'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn unrhyw gynrychiolaeth gan fudiadau neu unigolion yngln â phenderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd i eithrio'r iaith Gymraeg o 'Flwyddyn Ieithoedd Ewrop'. (OAQ2000JS) [w]

**17. Alison Halford (Delyn);** A wnaiff egluro sut y mae ein protocolau hil a chydraddoldeb yn cael eu monitro ac a wnaiff gyhoeddi ffigurau sy'n ymhelaethu ar gyfraniad grwpiau sydd yn

draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gymharu'r ffigurau â'r rhai ers 1997. (OAQ1984VB)

**18. Janet Ryder (Gogledd Cymru)** Pa ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud gan Gyngor Sir Caerdydd ar gyfer trefniadau teithio i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio trafnidiaeth ffordd, yn dilyn y penderfyniad i wneud i ffwrdd â chyswllt rheilffordd Rhodfa Bute. (OAQ2007JS)

**19. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa drafodaethau a gafodd efo Ysgrifennydd Gwladol Cymru yngln â chynlluniau deddfu yn y Senedd, sy'n effeithio ar bwerau'r Cynulliad. (OAQ2012JS) [w]

**20. Peter Rogers (Gogledd Cymru**); Sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pryderon am ddyluniad gwreiddiol adeilad y Cynulliad a'r ffaith nad oes darpariaeth ar gyfer mynediad i'r anabl. (OAQ2002JS)

**21. Jonathon Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff gomisiynu astudiaeth o'r manteision i Gymru pe bai Caerdydd yn cael ei dewis i fod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. (OAQ2004JS)

**22. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Beth yw goblygiadau Talu yn ôl Perfformiad ar Gynhwysiant Cymdeithasol yn Ne Ddwyrain Cymru. (OAQ1999JS)

**23. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa ofyniadau penodol y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cyflwyno i Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â'r Adolygiad Cyffredinol o Wariant. (OAQ1992JS) [w]

**24. Michael German (Dwyrain De Cymru**) Pa ddarpariaethau a wnaed ganddo er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn agored ac yn atebol yn ei waith bob dydd. (OAQ2006JS)

**25. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr**); Pa gynlluniau sydd ganddo i leihau trosedd yn y Gymru wledig. (OAQ1995JS)

**26. Geraint Davies (Rhondda);** Pa gynlluniau sydd ganddo i wella'r arwyddion sy'n dangos y ffordd i'r Cynulliad. (OAQ2010JS)

**27. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);** Pwy fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am greu a gweithredu cynllun strategol unedig newydd er mwyn datblygu Bae Caerdydd mewn ffordd gydlynol a sicrhau ei fod yn dod â budd gwirioneddol i bobl Cymru. (OAQ2009JS)